O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 659 (Cy. 97)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Coleg Caerdydd a'r Fro (Corffori) 2011

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn sefydlu corfforaeth addysg bellach a elwir Coleg Caerdydd a'r Fro o dan adran 16(1)(a) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ("y Ddeddf") at y diben o redeg y sefydliad addysgol sydd â'r un enw. Mae'r Gorchymyn hefyd yn darparu ar gyfer pennu 1 Awst 2011 yn ddyddiad gweithredu at ddibenion Rhan 1 o'r Ddeddf, sef y dyddiad y bydd Coleg Caerdydd a'r Fro yn ymgymryd â rhedeg, o hynny ymlaen, y sefydliad addysgol o'r un enw.

Mae drafft a chrynodeb o'r Gorchymyn hwn wedi eu cyhoeddi yn unol ag adran 51(3) o'r Ddeddf a Rheoliadau Corfforaethau Addysg Bellach (Cyhoeddi Gorchmynion Drafft) (Cymru) 2007.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 659 (Cy. 97)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Coleg Caerdydd a'r Fro (Corffori) 2011

Gwnaed *7 Mawrth 2011*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *8 Mawrth 2011*

Yn dod i rym *8 Ebrill 2011*

Gwneir y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 16(1)(a) ac 17 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**) sy'n arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru(**2**).

(**1**) 1992 p.13; diwygiwyd adran 16 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 gan adran 140(3) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion ac Atodlen 31 iddi (p.31); a chan adran 111(1) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p.21). Diwygiwyd adran 17 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 gan baragraff 7 o Atodlen 3 i Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p.30).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 16(1)(a) a 17 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar ôl hynny, i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi drafft a chrynodeb o'r Gorchymyn hwn yn unol ag adran 51(3)(**1**) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a Rheoliadau Corfforaethau Addysg Bellach (Cyhoeddi Gorchmynion Drafft) (Cymru) 2007(**2**).

Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi a chychwyn

1. Teitl y Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Coleg Caerdydd a'r Fro (Corffori) 2011 a daw i rym ar 8 Ebrill 2011.

Corfforaeth Newydd

2. Ar 8 Ebrill 2011 sefydlir corff corfforaethol o'r enw Coleg Caerdydd a'r Fro, at ddibenion sefydlu a rhedeg, o'r dyddiad gweithredu ymlaen, sefydliad addysgol newydd o'r un enw.

Dyddiad gweithredu

3. Y dyddiad gweithredu a bennwyd mewn perthynas â Choleg Caerdydd a'r Fro yw 1 Awst 2011, a bydd y gorfforaeth yn rhedeg y sefydliad addysgol Coleg Caerdydd a'r Fro o'r dyddiad hwnnw ymlaen.

Leighton Andrews

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

7 Mawrth 2011

(**1**) Diwygiwyd adran 51(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p.13) gan erthygl 9(1) o Orchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Cyngor) 2005 (O.S. 2005/3238) (Cy.243)) a chan baragraffau 13 a 21 o Atodlen 1 iddo; gan adran 111(2)(a) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (c.21); a chan erthygl 2(1) o Orchymyn Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru a Lloegr) 2010 (O.S. 2010/1080) a pharagraffau 18 a 21(c) a (d) o Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 51(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar ôl hynny, i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**2**) O.S. 2007/854 (Cy.78), a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/1142 (Cy.101).